Estyn

*Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Brynmenyn
# Heol y Bryn
# Brynmenyn
# Pen-y-bont ar Ogwr
# CF32 9LA

**Dyddiad yr arolygiad:  Medi 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**



**© Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 20/11/2012**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Brynmenyn ym mhentref Brynmenyn, ger Pen-y-bont ar Ogwr. Agorwyd yr ysgol bresennol ym 1913. Nid yw'r ardal a wasanaethir gan yr ysgol yn ffyniannus nac yn ddifreintiedig. Mae tua 50% o ddisgyblion yn mynychu o'r tu allan i'r dalgylch a daw tua 30% o'r ardaloedd cyfagos sy'n cael cyllid Cymunedau yn Gyntaf. Mae gan 24% o'r disgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim, sydd ychydig uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru.

Mae 204 o ddisgyblion rhwng tair ac 11 oed ar y gofrestr ar hyn o bryd, sy'n cynnwys disgyblion meithrin. Mae'r nifer wedi cynyddu'n gyson ers yr arolygiad diwethaf. Mae tua 62% o'r disgyblion yn fechgyn, er bod hyn yn amrywio o un flwyddyn i'r llall. Caiff disgyblion eu haddysgu mewn saith dosbarth, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cynnwys dau grŵp oedran.

Caiff tua 26% o ddisgyblion gymorth ychwanegol ar gyfer eu hanghenion dysgu ychwanegol, sydd ychydig uwchlaw'r cyfartaledd. Nid oes gan unrhyw ddisgyblion ddatganiad o angen addysgol arbennig. Saesneg yw unig iaith neu brif iaith bron pob disgybl, ac ychydig iawn ohonynt sy'n defnyddio Saesneg fel iaith ychwanegol. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn defnyddio'r Gymraeg fel eu mamiaith. Penodwyd y pennaeth ym Medi 2010. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn 2006.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Brynmenyn yn 2011-2012 yn golygu mai'r gyllideb yw £2,986 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd ym Mhen-y-bont ar Ogwr yw £5,486 a'r isafswm yw £2,737. Mae Brynmenyn yn safle 42 o'r 52 o ysgolion cynradd ym Mhen-y-bont ar Ogwr o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Bernir bod perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd boddhaol ac yn cyflawni safonau sy'n debyg i'r cyfartaledd ar y cyfan, ond bod perfformiad lleiafrif o ddisgyblion, bechgyn fel arfer, yn rhy isel;
- bod safonau llythrennedd wedi gwella'n ddiweddar, ond maent yn parhau i fod yn rhy isel;
- bod agweddau'r rhan fwyaf o ddisgyblion at ddysgu yn gadarnhaol a bod y rhan fwyaf ohonynt yn ymddwyn yn dda;
- bod y cwricwlwm yn ymarferol a chreadigol, ond nid yw'n rhoi digon o bwyslais ar ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion;
- bod ansawdd cyffredinol yr addysgu yn ddigonol, er bod ansawdd y marcio yn anghyson;
- bod y gofal, y cymorth a'r arweiniad yn ddigonol er nad yw trefniadau diogelu cystal ag y dylent fod;
- bod rolau arwain a rheoli strategol yn cael eu rhannu'n helaeth; a
- bod partneriaethau gydag ysgolion eraill, yr awdurdod lleol a'r gymuned yn dda.

### Rhagolygon gwella

Bernir bod rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- bod uwch arweinwyr a llywodraethwyr yn rhannu ymrwymiad i wella'r ysgol;
- bod y monitro a'r arfarnu rheolaidd o ran yr addysgu a'r dysgu yn drylwyr, yn eang ac yn ffactor allweddol yn eu gwelliant;
- bod yr uwch dîm rheoli yn effeithiol o ran adeiladu tîm cymharol newydd o athrawon a chynorthwywyr; ac
- nid yw prosesau gwella wedi arwain at gynnydd digonol mewn safonau llythrennedd eto, ond mae'r ysgol wedi rhwystro'r dirywiad, ac mae safonau'n codi, er bod hynny o sylfaen isel.

## Argymhellion

A1 Gwella safonau llythrennedd ar draws yr ysgol, yn enwedig ar gyfer bechgyn a'r disgyblion hynny sy'n fwy abl.

A2 Cryfhau'r cwricwlwm ar gyfer llythrennedd ymhellach.

A3 Gwella addysgu a dysgu bechgyn a'r disgyblion mwy abl.

A4 Datblygu rôl rheoli strategol y corff llywodraethol.

A5 Sicrhau bod trefniadau diogelu'n cael eu hadolygu'n fwy rheolaidd a bod pob aelod o staff yn cael hyfforddiant llawn ac aml ar weithdrefnau diogelu.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau yn yr ysgol gyda medrau islaw'r hyn sy'n ddisgwyliedig am eu hoedran. Dros gyfnod, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, yn cynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd boddhaol yn eu dysgu. Yn gyffredinol, mae cyflawniadau merched yn uwch na chyflawniadau bechgyn bron ym mhob maes yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2, yn enwedig mewn Saesneg. Bu gostyngiad sylweddol yn y tangyflawni yng nghyfnod allweddol 2 yn 2011-2012 o gymharu â 2010-2011. Gostyngodd hyd yn oed yn fwy yn y garfan bresennol ym Mlwyddyn 6 (2012-2013), o'r dystiolaeth o'u cyflawniadau presennol mewn darllen ac ysgrifennu. Bu gwelliant o 40% yng nghyflawniadau bechgyn mewn ysgrifennu y llynedd, er bod hyn yn parhau i fod ryw 30 pwynt canran islaw cyflawniadau merched. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae medrau cyffredinol bron pob disgybl mewn llythrennedd a rhifedd yn ddigonol o leiaf erbyn hyn. Mae cyraeddiadau mewn siarad a gwrando yn dda. Bu deilliannau mewn darllen ac ysgrifennu yn llawer mwy amrywiol nag yn y gorffennol, yn bennaf oherwydd cyraeddiadau is lleiafrif o fechgyn.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2012, roedd canlyniadau disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig (Deilliant 5 neu'n uwch) yn Nangosydd Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen yn cyd-fynd yn fras â chanlyniadau disgyblion mewn ysgolion eraill yn y teulu. Roedd cyflawniadau disgyblion mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu ychydig islaw'r cyfartaledd o gymharu â chyflawniadau yn y teulu o ysgolion. Roedd eu canlyniadau mewn datblygiad mathemategol ychydig uwchlaw cyfartaledd ysgolion eraill yn y teulu. Mewn datblygiad personol a chymdeithasol, roedd canlyniadau disgyblion islaw'r cyfartaledd yn y teulu o ysgolion. Roedd canlyniadau disgyblion wrth gyflawni'r lefel uwch na'r disgwyl (Deilliant 6), fodd bynnag, ymhell islaw cyfartaledd y teulu ym mhob maes.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, roedd cyrhaeddiad disgyblion dros y blynyddoedd diwethaf ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4 neu'n uwch) ym mhob un o'r tri phwnc craidd, a'r dangosydd pwnc craidd, ychydig islaw cyfartaledd y teulu. Roedd hyn yn golygu bod yr ysgol yn y 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg ar gyfer cyfnod allweddol 2. Roedd y cyfrannau sy'n cyflawni ar y lefel uwch na'r disgwyl (lefel 5 neu'n uwch) mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn golygu bod yr ysgol yn y 25% is o ysgolion tebyg.

Mewn mathemateg yn 2011-2012, roedd cyflawniadau ar y lefel 4 ddisgwyliedig ychydig islaw cyfartaleddau'r teulu. Roedd y canlyniadau ar y lefel 5 uwch mewn mathemateg ymhell islaw cyfartaleddau'r teulu yn 2011-2012. Yng nghyfnod allweddol 2 yn 2011-2012, roedd y canlyniadau ar lefel 4 ychydig islaw cyfartaledd y teulu. Roedd canlyniadau disgyblion ar y lefel 5 uwch mewn gwyddoniaeth ymhell islaw cyfartaleddau'r teulu, ond maent yn gwella erbyn hyn.

Mae cymhwysedd disgyblion mewn darllen yn foddhaol ar y cyfan, ac mae safon eu hysgrifennu ar gyfer gwahanol *genres* o safon gyfartalog. Fodd bynnag, mae gormod o fechgyn nad ydynt yn darllen yn ddigon rhugl erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Mae merched yn darllen ac yn ysgrifennu'n dda ac yn gwneud cynnydd da. Mae medrau cyffredinol disgyblion mewn llawysgrifen a chyflwyniad eu gwaith ysgrifenedig yn foddhaol. Mae medrau llawer o ddisgyblion mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn dda. Wrth iddynt ddatblygu eu medrau meddwl, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd wrth fireinio a myfyrio ar syniadau newydd. Mae medrau meddwl a chreadigol llawer o ddisgyblion yn dda, ond mae eu medrau ymchwil annibynnol yn fwy cyfyngedig. Mae disgyblion yn fedrus wrth ystyried cwestiynau athronyddol ac yn deall y gallai fod gan bobl eraill safbwyntiau gwahanol ar ystod o faterion.

Roedd canlyniadau disgyblion a gyflawnodd lefel 4 neu'n uwch mewn Cymraeg fel ail iaith yn 2012 ymhell uwchlaw cyfartaledd y teulu. Mae bron pob bachgen a merch yn datblygu medrau Cymraeg effeithiol yn y Cyfnod Sylfaen ac erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Mae llawer ohonynt yn cyflawni safonau da mewn Cymraeg llafar ac yn gwneud cynnydd priodol mewn darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg. Maent yn defnyddio Cymraeg achlysurol yn hyderus ar draws yr ysgol ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o ddiwylliant a hanes Cymru.

**Lles: Da**

Dywed bron pob disgybl eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn mwynhau dysgu ac wedi'u cymell yn dda. Maent yn astudio gyda brwdfrydedd ac yn dal ati i ganolbwyntio. Maent yn gweithio'n dda gyda disgyblion eraill ac ar eu pen eu hunain. Maent yn cyfrannu at gynllunio testunau ac yn cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain.

Mae disgyblion yn datblygu ystod dda o fedrau cymdeithasol a bywyd trwy ystod eang o weithgareddau allgyrsiol. Mae'r rhain yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o fywyd y tu allan i'r ysgol yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn deall pwysigrwydd cadw'n iach, trwy ddiet da a digonedd o ymarfer corff. Maent yn gwybod gyda phwy i siarad os ydynt yn poeni neu'n gofidio, yn cynnwys eu hathrawon a chyfryngwyr cyfoedion. Mae ganddynt berthynas waith dda gyda'i gilydd a gyda staff. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o ddatblygiad cynaliadwy, ac mae gan lawer ohonynt ymwybyddiaeth fyd-eang trwy gysylltiadau dramor.

Mae cyfraddau presenoldeb cyffredinol yn dda ac wedi bod uwchlaw 93% am y pum mlynedd diwethaf. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â chyfartaleddau lleol a chenedlaethol a gydag ysgolion eraill yn ei theulu. Mae cyfran yr absenoldebau anawdurdodedig yn isel. Mae'r ysgol yn annog pob disgybl i gyrraedd yn brydlon, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud hynny. Cafwyd dau waharddiad cyfnod penodol yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf.

Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan weithgar ym mywyd yr ysgol. Mae'r cyngor ysgol yn cymryd rhan yn llawn mewn dod o hyd i'r ymgeiswyr cywir ar gyfer ei weithgareddau amrywiol trwy broses cwbl ddemocrataidd. Mae ethos cynhwysol yr ysgol, ei chwricwlwm a llawer o wasanaethau wedi'u seilio ar werthoedd moesol dyrchafol, fel parchu pobl eraill. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar les disgyblion.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Digonol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn darparu ystod o brofiadau dysgu, sy'n bodloni anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae athrawon yn gweithio'n effeithiol i ddarparu cwricwlwm sy'n eang a chytbwys, gan adeiladu'n systematig ar wybodaeth a medrau disgyblion. Mae cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau meddwl a datrys problemau wedi'u cynllunio'n arbennig o dda. Nid yw'r cwricwlwm llythrennedd, yn enwedig y cynllunio ar gyfer addysgu darllen, yn ddigon trylwyr. Fodd bynnag, er bod y sesiynau newydd ar gyfer darllen dan arweiniad mewn grwpiau yn fyr, maent yn helpu i godi safonau mewn darllen.

Mae athrawon yn gweddu tasgau i anghenion disgyblion yn dda ar y cyfan, yn cynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau sy'n benodol i bwnc a medrau allweddol yn fanwl a phriodol. Ar draws yr ysgol, nid yw'r cwricwlwm yn cynnig digon o her i ddisgyblion mwy abl, nac i fechgyn.

Mae'r cynllunio ar gyfer medrau allweddol disgyblion yn foddhaol. Caiff y defnydd o fedrau allweddol ei ymgorffori mewn gwersi yn rheolaidd. Mae'r cyfleoedd i ddatblygu gwybodaeth disgyblion am y dimensiwn Cymreig yn gynhwysfawr. Mae'r cynllunio ar gyfer dysgu Cymraeg yn dda.

Mae'r ysgol yn darparu ystod dda o weithgareddau chwaraeon, artistig a cherddorol allgyrsiol, yn ogystal ag ymweliadau yn yr ardal a thu hwnt. Mae'r rhain yn sbarduno disgyblion i ennill ystod eang o fedrau cymdeithasol, artistig a chorfforol.

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i ailgylchu ystod o ddeunyddiau ac arbed trydan. Mae'r eco-bwyllgor yn weithgar iawn yn sicrhau bod gan bob disgybl ran yn hyn. Mae aelodau o'r pwyllgor, a'u cyd-ddisgyblion, yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'r angen i ailgylchu. Mae'r cwricwlwm yn annog disgyblion i feddwl am ddatblygiad cynaliadwy, ond maent yn llai ymwybodol o faterion byd-eang.

**Addysgu: Digonol**

Mae ansawdd yr addysgu'n ddigonol ar y cyfan. Mae athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol dda. Mae llawer ohonynt yn defnyddio ystod o strategaethau addysgu a dysgu ac yn holi cwestiynau'n dda i yrru dysgu'r disgyblion yn eu blaen. Caiff gwersi eu paratoi'n dda a'u trefnu'n effeithiol gydag amcanion dysgu clir, adnoddau o ansawdd da, a chysylltiadau uniongyrchol ag asesu. Mae'r gwersi'n symud yn gyflym ac maent yn rhoi cyfle i ddisgyblion weithio mewn parau a grwpiau bach. Maent yn hyrwyddo medrau allweddol yn rheolaidd, ond nid ydynt yn hyrwyddo llythrennedd digon. Yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2, mae athrawon yn paratoi profiadau dysgu ysgogol i ddisgyblion ar y cyfan. Maent yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda. Mae gan yr ysgol lawer o staff cymorth sy'n gwneud cyfraniad gwerthfawr at ddysgu'r disgyblion. Yn y Cyfnod Sylfaen, er enghraifft, mae cynorthwywyr addysgu yn arwain dysgu mewn grŵp yn yr ystafell ddosbarth a'r tu allan.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhoi adborth llafar adeiladol, sy'n dangos yn glir i ddysgwyr sut i wella. Caiff cynnydd disgyblion mewn dysgu ei asesu'n rheolaidd a'i

fonitro'n ofalus gan athrawon yn gyffredinol, ar lefel unigol a grŵp. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio strategaethau da i asesu dysgu a hyrwyddo syniadau rhesymegol a dysgu annibynnol. Maent yn myfyrio ar eu hasesiadau wrth gynllunio ar gyfer gwaith yn y dyfodol. Mae'r marcio yn anghyson o ran ei effeithiolrwydd. Mae'n fuddiol ac yn fanwl yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau ond yn gyfyngedig mewn dosbarthiadau eraill. Pan mae'n fuddiol, mae fel arfer yn galluogi disgyblion i wybod pa mor dda y mae'r athro yn ei farnu y maent yn cyflawni a sut gallant wella. Fodd bynnag, mae rhan disgyblion mewn arfarnu eu cynnydd eu hunain, ac wrth nodi meysydd lle gallant wella, yn gyfyngedig. Mae adroddiadau i rieni yn glir a llawn gwybodaeth. Mae rhieni a gofalwyr yn teimlo eu bod yn cael gwybodaeth dda gan yr ysgol am gynnydd eu plentyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol**

Dywed y rhan fwyaf o ddisgyblion eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae polisïau da ar waith i sicrhau iechyd a diogelwch disgyblion, ac mae asesiadau risg priodol yn eu lle. Os bydd problemau'n codi, mae staff yn defnyddio strategaethau cyson i weithio gyda rhieni neu ofalwyr i wella'r sefyllfa. Mae rhaglen astudio fanwl ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn y Cyfnod Sylfaen, ond mae'n llai manwl yng nghyfnod allweddol 2.

Trwy wasanaethau priodol a gyda mewnbwn gan ymwelwyr, mae'r ysgol yn meithrin datblygiad ysbrydol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda. Caiff datblygiad moesol ei hyrwyddo'n arbennig o dda, yn bennaf trwy'r Rhaglen Addysg Gwerthoedd. Mae'r ysgol yn monitro anghenion emosiynol a hunan-barch disgyblion yn dda trwy arolygon. Caiff y rhain eu holrhain trwy fentora'r rhai a allai fod mewn sefyllfa fregus yn fanwl a chefnogol. Mae'r ysgol yn effeithiol o ran hyrwyddo bwyta'n iach trwy ei pholisi ar fyrbrydau ffrwythau yn unig a'i siop ffrwythau. Mae athrawon yn hyrwyddo hylendid geneuol da mewn modd effeithiol ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen trwy gynllun brwsio dannedd.

Mae darpariaeth dda ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae athrawon yn defnyddio eu harbenigedd yn dda ac yn dadansoddi data yn effeithiol i nodi disgyblion y mae angen mwy o gymorth arnynt. Mae cynorthwywyr addysgu yn darparu ymyrraeth effeithiol mewn dosbarthiadau, gyda chymorth priodol mewn grwpiau tynnu allan o wersi. Mae gan ddisgyblion gynlluniau addysg unigol o ansawdd da. Caiff y cynlluniau hyn eu harfarnu'n rheolaidd a'u diweddaru, trwy ymgynghori â rhieni. Mae athrawon yn gwneud defnydd da o'r cynlluniau addysg unigol hyn sy'n addas ar gyfer plant, i osod targedau a monitro cynnydd. Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o ystod eang o asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol, yn cynnwys y rhai a ddarperir gan yr awdurdod lleol, i gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ysgol yn nodi disgyblion mwy abl a dawnus, ond nid yw'n gwneud digon i herio nac ymestyn eu dysgu.

Mae'r pennaeth ac ysgrifenyddes yr ysgol yn monitro presenoldeb yn dda. Maent yn gweithio'n agos â'r swyddog lles addysg i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â phresenoldeb.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r rhan fwyaf o ofynion ac mae polisi priodol ar gyfer diogelu. Fodd bynnag, ni chaiff y gweithdrefnau eu hadolygu'n ddigon rheolaidd. Hefyd, nid yw rhai aelodau o'r staff cynorthwyol wedi

cael hyfforddiant priodol, ac nid ydynt yn ymwybodol o'r gweithdrefnau cywir ar gyfer diogelu.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae gan yr ysgol ethos cadarnhaol a gofalgar, sy'n annog disgyblion i drin pobl eraill yn deg a dangos parch atynt. Mae'n gymuned gynhwysol, lle caiff disgyblion gyfle cyfartal i fanteisio ar bob cyfle addysgol. Mae gwasanaethau'n cyfrannu'n dda at hyrwyddo parch at unigoliaeth, amrywiaeth a gwerthfawrogi doniau disgyblion. Mae'r cwricwlwm sydd wedi'i seilio ar werthoedd yn datblygu goddefgarwch, parch a dyfalbarhad disgyblion yn effeithiol. Mae gwersi sy'n canolbwyntio ar ddatblygu dealltwriaeth athronyddol disgyblion yn herio stereoteipiau mewn modd effeithiol.

Mae ansawdd yr adeiladau yn ddigonol. Gwneir defnydd da o'r lle cyfyngedig sydd ar gael, ac mae arddangosiadau deniadol o wybodaeth, arteffactau a gwaith disgyblion. Serch hynny, mae'r rhan fwyaf o'r ystafelloedd dosbarth ac unig neuadd yr ysgol yn rhy fach ar gyfer nifer y plant sy'n eu defnyddio. Mae hyn yn rhwystr sylweddol rhag dysgu ymarferol mewn gwersi fel celf, dawns neu ddrama. Nid oes gan yr ysgol lyfrgell. Er bod yr amgylchedd awyr agored yn gyfyngedig ar lawer cyfrif, yn cynnwys nifer o nodweddion da, fel cyflenwad o deganau ag olwynion, gemau a phyllau tywod. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o ardd gymunedol leol i gyfoethogi dysgu'r disgyblion. Yn ddiweddar, mae tîm troseddau ieuenctid wedi datblygu man tawel ar gyfer myfyrio gyda deciau a strwythurau pren deniadol. Mae adnoddau da ar gyfer plant y meithrin a'r derbyn yn y mannau ar wahân yn yr awyr agored. Mae ganddynt loriau da a ffiniau diogel. Caiff y mannau hyn eu defnyddio'n dda ar gyfer dysgu yn yr awyr agored yn y Cyfnod Sylfaen. Mae adnoddau priodol yn yr ysgol. Mae disgyblion yn gwneud defnydd da o offer TGCh, fel y gliniaduron, y tabledi a'r byrddau gwyn rhyngweithiol newydd niferus.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r pennaeth wedi llwyddo i adeiladu tîm da o athrawon a chynorthwywyr addysgu, ac fe gafodd llawer ohonynt eu penodi'n ddiweddar. Mae cyfrifoldebau wedi cael eu dosbarthu'n eang. Mae morâl y staff yn uchel, ac mae athrawon yn gweithio'n effeithiol i ddatblygu partneriaeth gadarnhaol gyda disgyblion a rhieni. Mae'r dirprwy bennaeth a'r uwch dîm reoli yn rhoi cymorth da i'r pennaeth ac aelodau eraill o staff. Maent yn gyrru llawer o fentrau a datblygiadau diweddar yn eu blaen. Mae'r arweinyddiaeth wedi llwyddo i rwystro gostyngiad mewn safonau, er bod llawer ar ôl i'w wneud.

Mae trefniadau rheoli perfformiad ar gyfer staff yn drylwyr ac yn bodloni gofynion statudol. Mae targedau'n cysylltu'n agos â blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae staff a llywodraethwyr yn cydweithio'n dda. Mae staff yn monitro eu meysydd cyfrifoldeb yn effeithlon ac yn cadw dogfennaeth dda. Mae polisïau'r ysgol ar gyfer pynciau ac agweddau ar y ddarpariaeth yn bodloni'r gofynion statudol. Maent yn cynnwys blaenoriaethau cenedlaethol a lleol, fel datblygu'r Cyfnod Sylfaen, medrau meddwl a dwyieithrwydd. Mae rhaglen dreigl o adolygu polisïau, er bod y graddfeydd amser yn rhy hir ar adegau.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r corff llywodraethol cyfan wedi rhoi cymorth da i'r ysgol, yn enwedig wrth wneud penodiadau uwch da. Nid yw, fodd bynnag, wedi cynnig digon o her neu gyfeillgarwch beirniadol i arweinwyr a rheolwyr bob amser. Mae llywodraethwyr yn ymwybodol o faterion yn ymwneud â safonau, ac maent yn gefnogol o'r cynlluniau ar gyfer gwella. Fodd bynnag, nid ydynt wedi herio'r ysgol digon i godi safonau. Mae adroddiad blynyddol y corff llywodraethol a'r prosbectws yn bodloni gofynion.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r uwch dîm rheoli wedi cryfhau'r broses hunanarfarnu dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn eithaf cryno ac yn canolbwyntio ar arfarnu safonau a monitro addysgu a dysgu. Mae'r rhaglen fonitro yn drylwyr a rheolaidd, ac mae pob athro'n cymryd rhan yn llawn yn y broses hunanarfarnu. Mae'r ysgol yn gofyn am safbwyntiau disgyblion a rhieni, ac yn eu hystyried. Mae'n gwerthfawrogi eu safbwyntiau hefyd.

Mae cysylltiadau da rhwng yr adroddiad hunanarfarnu a'r cynllun datblygu ysgol. Mae cynlluniau gweithredu ar gyfer y prif feysydd datblygu yn fanwl, ond nid ydynt yn cynnwys digon o dargedau penodol a mesuradwy i gefnogi arfarnu cynnydd. Mae hunanarfarnu wedi cael effaith gymedrol ar wella safonau. Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd rhannol wrth fynd i'r afael â phrif argymhellion yr arolygiad diwethaf. Mae wedi bodloni tri o bum argymhelliad yr adroddiad arolygu diwethaf yn 2006 yn llawn.

Mae pob un o'r staff yn cymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol, sy'n gwella'u haddysgu. Mae cymunedau dysgu proffesiynol sefydledig yn galluogi athrawon i rannu arbenigedd ar asesu gyda chydweithwyr lleol. Mae staff wedi chwarae rhan allweddol mewn menter gan yr awdurdod lleol ar ddysgu a chwarae. Mae hyn wedi helpu i wella'r cwricwlwm, fel y mae ymchwil athrawon i ddatblygu dealltwriaeth athronyddol disgyblion.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaethau strategol effeithiol gyda rhieni, llywodraethwyr, yr awdurdod lleol, gwasanaethau cymdeithasol ac ysgolion lleol. Mae'r rhain yn cyfrannu'n sylweddol at les disgyblion yn arbennig. Mae'r ysgol, trwy adroddiadau, holiaduron a chylchlythyrau, yn cyfathrebu'n dda â rhanddeiliaid. Mae trefniadau trosglwyddo'n dda. Mae proses safoni effeithlon ar gyfer cyraeddiadau disgyblion wedi cael ei rhoi ar waith rhwng yr ysgol a'i chlwstwr lleol o ysgolion.

Er mai cyfyngedig yw'r cyfleoedd i gysylltu gyda diwydiant a busnesau lleol, mae'r ysgol wedi meithrin perthynas gynhyrchiol gyda phreswylwyr lleol. Yn sgil hyn, rhoddwyd darn o dir i'r ysgol a ddatblygwyd i fod yn ardd gymunedol. Mae menter i gyflogi troseddwyr ifanc wedi arwain at adeiladu lle i ddisgyblion fynd i fyfyrio'n dawel. Ymgysylltir yn effeithiol ag asiantaethau allanol i roi cymorth arbenigol i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Rheoli adnoddau:  Digonol**

Mae’r ysgol yn rheoli ei hadnoddau yn ddigonol.  Yn gyffredinol, mae’n cyfeirio’i chyllid tuag at flaenoriaethau strategol.  Mae’n defnyddio staff addysgu a chymorth yn effeithiol a gwneir defnydd da o’u harbenigedd.  Caiff effaith yr adnoddau ar yr addysgu a’r dysgu ei hadolygu’n gyson.  Mae’r defnydd o adnoddau yn cyfrannu at ddeilliannau boddhaol ar gyfer disgyblion.  Mae’r ysgol yn gweithio’n dda gyda darparwyr eraill i gydgyfrannu adnoddau lle bynnag y bo modd.  Fodd bynnag, yn sgil tanwariant o ryw 10% yng nghyllideb y llynedd, aeth yr ysgol i’r afael â llai o flaenoriaethau addysgol.  Gan mai safonau boddhaol a gyflawnir gan ddisgyblion ar y cyfan, mae’r ysgol yn rhoi gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol gyda chyflawniadau islaw'r cyfartaledd. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2012, roedd canlyniadau disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig (Deilliant 5 neu'n uwch) yn Nangosydd Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen yn cyd-fynd yn fras â chanlyniadau disgyblion mewn ysgolion eraill yn y teulu ac yng Nghymru. Roedd cyflawniadau disgyblion mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu, ychydig islaw cyfartaleddau'r teulu o ysgolion a Chymru gyfan. Roedd eu canlyniadau mewn datblygiad mathemategol ychydig uwchlaw cyfartaleddau'r teulu, yr awdurdod lleol a Chymru gyfan. Mewn datblygiad personol a chymdeithasol, roedd canlyniadau disgyblion islaw'r cyfartaledd yn y teulu o ysgolion, ond yn cyd-fynd â chyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Roedd canlyniadau disgyblion o ran cyflawni'r lefel uwch na'r disgwyl (Deilliant 6), fodd bynnag, islaw cyfartaledd y teulu ym mhob maes, ac ymhell islaw cyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Roedd cyflawniadau cyffredinol bechgyn yn is na chyflawniadau merched.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, roedd cyrhaeddiad disgyblion dros y blynyddoedd diwethaf ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4 neu'n uwch) ym mhob un o'r tri phwnc craidd, a'r dangosydd pwnc craidd, ychydig islaw cyfartaleddau'r teulu, yr awdurdod lleol a'r rhai cenedlaethol. Roedd hyn yn golygu bod yr ysgol yn y 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg ar gyfer cyfnod allweddol 2. Roedd y cyfrannau a gyflawnodd ar y lefel uwch na'r disgwyl (lefel 5 neu'n uwch) mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn golygu bod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg.

Er bod canlyniadau bechgyn yn parhau i fod rhyw 30 o bwyntiau canran yn is na chanlyniadau merched, maent wedi gwella'n sylweddol mewn ysgrifennu o ryw 40% yn 2012. Er bod safonau bechgyn mewn Saesneg yn yr ystafell ddosbarth yn parhau i fod islaw'r cyfartaledd, rhwystrwyd y dirywiad, ac mae safonau'n dechrau codi, ond o sylfaen isel. Mae'r gwelliant hwn mewn cyflawniadau hefyd yn wir am gyfran y disgyblion sy'n cyflawni lefel 4 neu'n uwch yn y dangosydd pwnc craidd, ac mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

Yn y dangosydd pwnc craidd, ac mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth o 2009 i 2011, bu gostyngiad yng nghyfran y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4 neu'n uwch). Yn y cyfnod hwnnw, bu gostyngiad sydyn yng nghyfran y disgyblion a gyflawnodd y lefel uwch na'r disgwyl (lefel 5 neu'n uwch) nes ei bod ymhell islaw'r cyfartaledd o gymharu â'r ffigurau ar gyfer y teulu a Chymru.

Mewn mathemateg yn 2012, roedd cyflawniadau ar y lefel 4 ddisgwyliedig yn cyd-fynd â chyfartaleddau lleol, ond ychydig islaw cyfartaleddau cenedlaethol. Roedd y canlyniadau ar y lefel 5 uwch mewn mathemateg ymhell islaw cyfartaleddau lleol, cenedlaethol a'r teulu yn 2012.

Mewn gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 2 yn 2012, roedd y canlyniadau ar lefel 4 yn cyd-fynd â chyfartaleddau lleol ac ychydig islaw cyfartaleddau'r teulu a Chymru gyfan. Roedd canlyniadau disgyblion ar y lefel 5 uwch mewn gwyddoniaeth ymhell islaw cyfartaleddau lleol, cenedlaethol a'r teulu.

Roedd canlyniadau disgyblion a gyflawnodd lefel 4 neu'n uwch mewn Cymraeg fel ail iaith yn 2012 ymhell uwchlaw cyfartaleddau'r teulu a Chymru gyfan.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

**Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr**

Llenwodd naw deg naw o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yr holiadur. Mae bron pob un ohonynt yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac mae 84% yn credu bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio, sydd islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 92%. Mae'r rhan fwyaf ohonynt, tua 86%, yn credu eu bod yn cael cymorth da; yn enwedig o ran gwybod gyda phwy i siarad os ydynt yn poeni, fel eu cyfryngwyr cyfoedion. Mae hyn islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 96%. Mae'r mwyafrif helaeth yn teimlo eu bod yn cael eu haddysgu'n dda ynglŷn â sut i gadw'n iach, a bod llawer o gyfle i wneud ymarfer corff yn rheolaidd yn yr ysgol. Mae bron pob un ohonynt yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol. Mae llawer ohonynt yn credu bod digon o adnoddau i'w galluogi i ddysgu'n dda, ac mae 82% ohonynt yn credu bod gwaith cartref o werth iddynt. Mae lleiafrif mawr, sef 42%, yn teimlo nad yw disgyblion eraill bob amser yn ymddwyn yn dda yn y dosbarth. Mae'r gyfran olaf hon ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 23%.

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Llenwodd chwe deg o rieni'r holiadur. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn mynegi safbwyntiau cadarnhaol am yr ysgol. Yn benodol, mae pob un o'r ymatebwyr yn fodlon â'r ysgol ac yn dweud bod eu plant yn hoffi bod yno. Mae pob un ohonynt yn teimlo bod eu plant yn gwneud cynnydd da a'u bod yn ddiogel yn yr ysgol, sydd uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 96%. Mae'r rhan fwyaf o rieni'n ei chael yn hawdd mynd at y staff os oes ganddynt unrhyw gwestiynau neu bryderon. Mae tua 75% yn teimlo eu bod yn cael gwybodaeth dda am gynnydd eu plant. Mae hyn ymhell islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 90% o rieni. Mae'r rhan fwyaf o rieni'n teimlo bod ystod dda o weithgareddau, yn cynnwys gwibdeithiau ac ymweliadau. Caiff yr ysgol ei rhedeg yn dda ym marn bron pob un o'r rhieni.

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Robert Alun Isaac | Arolygydd Cofnodol |
| Enir Rees Morgan | Arolygydd Tîm |
| Rhiannon Mary Boardman | Arolygydd Lleyg |
| Andrea Waddington | Arolygydd Cymheiriaid |
| Helen Clare Dale | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Cwricwlwm Cenedlaethol**

**Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol**

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

**Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol**

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol.  Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion.  Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.